# SCDSW12
## Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm

**Trosolwg**

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau.  Mae asesu'n weithgaredd proffesiynol nodedig o fewn gwaith cymdeithasol.  Mae asesiad cywir a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i sicrhau y bydd unrhyw ymglymiad gwaith cymdeithasol dilynol wir yn gweddu bywydau ac amgylchiadau pobl, ac ni all cynllunio ddechrau nes i'r asesiad gael ei gwblhau.  Mae asesu risg yn un o nodweddion pwysig y broses (er nad yr unig un) a gall tensiwn godi rhwng hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â hyn. Mae'r safon hon yn cydnabod bod pobl yn arbenigwyr ynghylch eu bywydau eu hunain a bod gan wybodaeth a gedwir gan eraill, gan gynnwys rhai mewn asiantaethau neu ddisgyblaethau eraill, ran hanfodol i'w chwarae hefyd mewn adeiladu asesiad cyfannol.

## Meini prawf perfformiad

*Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:*

P1 gwrando ar hanes **pobl** eu hunain o'u sefyllfa

P2 gweithio'n gyfannol gyda phobl i'w galluogi i amlygu, egluro a mynegi eu cryfderau, **anghenion** a'u disgwyliadau

P3 amlygu rhwystrau sy'n creu cyfyngiadau ar bobl

P4 cynorthwyo pobl i amlygu'r hyn fyddai'n eu helpu i adeiladu ar eu cryfderau, eu galluoedd a'u cyflawniadau eu hunain

P5 gweithio gydag eraill i gasglu rhagor o wybodaeth sy'n berthnasol i'r asesiad

P6 gweithio gyda phobl i amlygu unrhyw **risg** sy'n gysylltiedig â'u sefyllfa

P7 dadansoddi natur, lefel, angenrheidrwydd a goblygiadau unrhyw un o'r **risgiau** a nodir, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill

P8 asesu cydbwysedd hawliau a chyfrifoldebau pobl mewn perthynas ag unrhyw risgiau a amlygir

P9 llunio barn broffesiynol ynghylch anghenion, **risgiau** a ffactorau amddiffynnol i lywio cynllunio

P10 cofnodi gwybodaeth yr asesiad yn gywir ac yn unol â gofynion sefydliadol

**SCDSW12**
Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 deddfwriaeth ryngwladol, ei pherthynas â **pholisïau'r** DU ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K2 deddfwriaeth y DU, ei pherthynas â **pholisïau** cenedlaethol ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K3 deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K4 codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K5 nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion

K6 damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno

K7 damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throseddegol

K8 damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes

K9 beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, **polisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K10 gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes

K11 natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol

K12 egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K13 **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol

K14 eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol

K15 egwyddorion asesu risg a rheoli risg

K16 egwyddorion cymryd risg yn gadarnhaol

K17 technegau datrys problemau a meddwl arloesol

K18 egwyddorion rheoli gwrthdaro

K19 gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol

K20 offer a fframweithiau asesu a chynllunio

K21 gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol eraill

K22 gwaith amlddisgyblaethol

K23 diben gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill

K24 cylch gwaith, swyddogaethau, ethos a chyfrifoldebau disgyblaethau a sefydliadau sy'n ymglymedig â gwaith amlddisgyblaethol

K25 cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, y teulu, y grŵp neu'r gymuned

K26 egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau

K27 gweithdrefnau amlddisgyblaethol a sefydliadol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth

K28 mathau o niwed neu gamdriniaeth

K29 dangosyddion niwed neu gamdriniaeth posibl

K30 nodweddion cyffredin ymddygiad cyflawnwyr

K31 dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd

K32 grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau

K33 potensial unigolion i ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol i gyflawni newid

K34 gwerth a rôl rhwydweithiau teuluol, cymunedau a grwpiau o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a ffyrdd i'w datblygu

K35 natur personoli a gwasanaethau wedi'u personoli, gan gynnwys cymorth hunangyfeiriol; a rôl y gweithiwr cymdeithasol mewn perthynas â'r rhain yng nghyd-destun polisi cenedlaethol

K36 amrywiaeth yr adnoddau sydd ar gael o fewn rhwydweithiau anffurfiol, yn y gymuned ehangach, trwy ddarpariaeth gwasanaeth ffurfiol, a thrwy arloesedd

K37 sut i fynegi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir, yn eglur, yn berthnasol ac â lefel briodol o fanylion

K38 gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a llunio adroddiadau

K39 gofynion cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth

K40 egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu

## Gwybodaeth Ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Cwmpas/ystod** | Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad** | Gall **pobl** gynnwys unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau neu gymunedau<br>Gall **anghenion** gynnwys anghenion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r bobl dan sylw, yr anghenion a gyflwynir gan eu hamgylchiadau ehangach neu anghenion sy'n cael eu creu gan systemau allanol y maent yn gysylltiedig â nhw<br>Gall **risgiau** gynnwys risgiau i'r unigolyn, i'w r(h)ydweithiau personol, i'r gymuned ehangach, i chi'ch hun neu i gydweithwyr yn eich sefydliad eich hun neu sefydliadau eraill |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth** | Gall **polisïau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau<br>Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd |

## Gwerthoedd

Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt

## Sgiliau

1. Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig
2. Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy
3. Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd
4. Hwyluso defnydd pob unigolyn o iaith a dull cyfathrebu dewisol
5. Cynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
6. Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi
7. Trafod gydag eraill i gyflawni cytundeb mewn sefyllfaoedd cymhleth
8. Herio eraill, lle bo angen, mewn ffyrdd sy'n debygol o gyflawni newid
9. Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau
10. Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth
11. Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth
12. Llunio barn broffesiynol ynghylch sefyllfaoedd cymhleth
13. Defnyddio eich sgiliau rhyngbersonol a sgiliau a gwybodaeth arall fel adnodd
14. Cymhwyso ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
15. Cydbwyso canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â lles pobl eraill
16. Llunio cofnodion ac adroddiadau sy'n bodloni safonau proffesiynol
17. Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
18. Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi

## Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r SGC hon yn cysylltu'n agos â:
SCD SW 13 Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth
SCD SW 14 Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy
SCD SW 15 Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb
SCD SW 16 Cytuno ar gynlluniau lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth

## Cysylltiadau Allanol

Mae'r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol.

# SCDSW12
## Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **Rhif y fersiwn** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | HYDREF 2011 |
| **Dyddiad adolygu mynegol** | EBRILL 2014 |
| **Dilysrwydd** | CYFREDOL |
| **Statws** | GWREIDDIOL |
| **Sefydliad gwreiddiol** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **URN gwreiddiol** | SW12 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Cyfres** | GWAITH CYMDEITHASOL |
| **Allweddeiriau** | GWAITH CYMDEITHASOL; YMARFER; GWYBODAETH, TYSTIOLAETH |